



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 02/2019

Mawrth 2019

Cymorth ar gael yn 2019/20 ar gyfer cwrs meistr ôl-radd a doethuriaeth

I'w ddosbarthu i:

Sefydliadau addysg uwch
Sefydliadau addysg bellach
Darparwyr eraill sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
UCM Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
Partïon eraill sydd â diddordeb

Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad hwn yn disgrifio'r cyfraddau cymorth ar gyfer cyrsiau meistr ôl-radd a doethuriaeth ym mlwyddyn academiaidd 2019/20. Os bydd anghysondeb rhwng yr Hysbysiad hwn a'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymorth, y rheoliadau fydd yn cael blaenoriaeth.

Cyrsiau Meistr Ôl-radd

O 1 Awst 2019, gallai myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru (a'r rheini o'r UE sy'n astudio mewn sefydliad yng Nghymru) gael yr hawl i gyfuniad o fenthyciad a grant fel cyfraniad at gostau tra'n astudio cwrs gradd meistr ôl-radd. Nid yw cyfanswm y cymorth sydd ar gael yn seiliedig ar brawf modd, a chaiff ei dalu'n uniongyrchol i'r myfyriwr.

Cyfanswm y cymorth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys yw **£17,000**. Mae grant o hyd at **£6,885** ar gael, yn dibynnu ar incwm yr aelwyd. Cynigir gweddill y cymorth ar ffurf benthyciad.

Dyma elfennau'r cymorth:

- Mae grant sylfaenol o **£1,000** ar gael i bob myfyriwr cymwys nad yw'n seiliedig ar brawf modd i gyfrannu at eu costau.
- Mae grant ychwanegol o **£5,885** ar gael i fyfyrwyr cymwys o aelwyd sydd ag incwm o hyd at £18,370 y flwyddyn, sy'n seiliedig ar brawf modd, i gyfrannu at eu

costau. Am bob £6.937 o incwm aelwyd y flwyddyn uwchlaw'r trothwy hwn, bydd gostyngiad o £1.00 i'r grant ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd.

- Mae benthyciad ar gael i bob myfyriwr cymwys nad yw'n seiliedig ar brawf modd i gyfrannu at eu costau. Bydd swm y benthyciad sydd ar gael yn cyfateb i lefel cyfanswm y cymorth (£17,000 yn 2019/20) *wedi tynnu* cyfanswm y grant (y grant sylfaenol a'r grant ychwanegol) y mae myfyriwr yn gymwys i'w gael.

Ar gyfer astudiaethau rhan-amser, dyrennir y cymorth ariannol dros nifer y blynyddoedd y dilynir y cwrs. Caiff y cymorth ariannol ei dalu mewn rhandaliadau yn ôl nifer y blynyddoedd academaidd; er enghraifft, £17,000 ar gyfer cwrs blwyddyn, £8,500 y flwyddyn ar gyfer cwrs dwy flynedd, a £4,250 y flwyddyn ar gyfer cwrs pedair blynedd. Mae cyrsiau amser llawn sy'n para blwyddyn a dwy flynedd yn gymwys i gael cymorth. Mae cyrsiau rhan-amser sy'n para hyd at bedair blynedd yn gymwys i gael cymorth.

Nid yw myfyrwyr cyrsiau meistr ôl-radd a ddechreuodd eu cyrsiau ym mlynnyddoedd academaidd 2017/18 neu 2018/19 yn gymwys i gael y pecyn cymorth hwn. Bydd y myfyrwyr hyn yn parhau i fod yn gymwys am y pecyn cymorth a oedd ar gael pan oeddent wedi dechrau eu cyrsiau.

Dangosir y symiau grant a benthyciad sydd ar gael yn ôl gwahanol lefelau incwm yn **Nhabl 1**.

Oherwydd cyfyngiadau gan Drysorlys ei Mawrhydi ar ddarparu benthyciadau ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y gall ddarparu cymorth grant ychwanegol i fyfyrwyr cymwys 60 oed a throsodd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Cyrsiau Doethuriaeth

O 1 Awst 2019, gallai myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a'r rheini o'r UE sy'n astudio mewn sefydliad yng Nghymru, gael yr hawl i gymorth. Bydd modd i fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau yn 2019 gael benthyciad hyd at £25,700, fel cyfraniad at eu costau, dros gyfnod y rhaglen ddoethuriaeth. Gall y cyrsiau fod yn rhai amser llawn neu'n rhan-amser, rhwng tair ac wyth blynedd o hyd. Gwneir rhandaliadau dros nifer blynyddoedd y rhaglen ddoethuriaeth.

Ni fydd y rheini sy'n cael cyllid myfyrwyr gan unrhyw un o saith Cyngor Ymchwil y DU (cyllid llawn neu ffioedd yn unig) yn gymwys i gael benthyciad. Ni fydd y rheini sy'n cael ffurfiau uniongyrchol eraill ar gymorth y Llywodraeth tuag at gostau cynhaliath

Cymorth ar gael yn 2019/20 ar gyfer cwrs meistr ôl-radd a doethuriaeth

a ffioedd, gan gynnwys unrhyw gyfraniadau cyflog neu ffioedd a ddarperir gan y GIG at ddibenion cyrsiau doethuriaeth, a chynllun KESS 2, yn gymwys chwaith.

Mae cyrsiau a ddechreuodd o flwyddyn academaidd 2018/19 neu wedi hynny (hy ar 1 Awst 2018 neu wedi hynny) yn gymwys i gael cymorth.

TABL 1

Hawl myfyrwyr cyrsiau meistr ôl-radd am grant a benthyciad: lefelau incwm, 2019/20

INCWM (£)	GRANT (£)	BENTHYCIAD (£)	CYFANSWM Y GRANT A'R BENTHYCIAD (£)
Cwrs blwyddyn			
18,370	6,885.00	10,115.00	17,000.00
20,000	6,651.00	10,349.00	17,000.00
25,000	5,930.00	11,070.00	17,000.00
30,000	5,209.00	11,791.00	17,000.00
35,000	4,488.00	12,512.00	17,000.00
40,000	3,767.00	13,233.00	17,000.00
45,000	3,047.00	13,953.00	17,000.00
50,000	2,326.00	14,674.00	17,000.00
55,000	1,605.00	15,395.00	17,000.00
59,200	1,000.00	16,000.00	17,000.00
Cwrs dwy flynedd (fesul blwyddyn)			
18,370	3,442.50	5,057.50	8,500.00
20,000	3,325.50	5,174.50	8,500.00
25,000	2,965.00	5,535.00	8,500.00
30,000	2,604.50	5,895.50	8,500.00
35,000	2,244.00	6,256.00	8,500.00
40,000	1,883.50	6,616.50	8,500.00
45,000	1,523.50	6,976.50	8,500.00
50,000	1,163.00	7,337.00	8,500.00
55,000	802.50	7,697.50	8,500.00
59,200	500.00	8,000.00	8,500.00

Nodiadau

Mae swm y grant yn seiliedig ar gyfradd amser llawn (am flwyddyn) o £6,885, wedi tynnu £1 am bob £6.937 ychwanegol mewn incwm, uwchlaw £18,370. Dyfernir grantiau a benthyciadau rhan-amser ar sail pro-rata yn ôl hyd y cwrs astudio.

Rhagor o wybodaeth a chanllawiau

Bydd rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.